At: Swyddogion Cyfrifol

Anfonwyd drwy e-bost

18 Mai 2022

Annwyl gydweithiwr,

Diweddariad i'r Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol a'r Polisi Cymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig a Chynlluniau cysylltiedig a chyflwyno Cynllun newydd ar gyfer cymeradwyo cymwysterau nad ydynt yn flaenoriaeth

Yn dilyn adolygiad polisi wedi'i drefnu, rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu ein bod bellach wedi cyhoeddi Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol ddiwygiedig a Pholisi Cymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig a Chynlluniau cysylltiedig ar gyfer comisiynu a dethol. Yn ogystal, ac fel sy'n ofynnol o dan adran 19 o Ddeddf Cymwysterau Cymru (2015), rydym wedi datblygu Cynllun newydd sy'n nodi, ymhlith pethau eraill, y ffactorau rydym yn debygol o'u hystyried wrth benderfynu a ddylid ystyried cymhwyster nad yw'n flaenoriaeth ar gyfer ei gymeradwyo.

Amlinellir trosolwg o'r newidiadau rydym wedi'u gwneud i'r dogfennau rheoleiddio hyn isod. Nid yw'r newidiadau hyn yn cael eu hystyried yn rhai sylweddol, ac nid ydynt yn newid ein gofynion rheoliadol:

- Mae'r polisi'n cynnwys manylion ychwanegol am gymwysterau sydd wedi'u Cymeradwyo a sut rydym yn blaenoriaethu eu cymeradwyaeth drwy'r Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol (paragraffau 5-9 y polisi);
- Mae'r polisi'n cynnwys manylion am gymeradwyo cymwysterau nad ydynt yn flaenoriaeth (paragraffau 59-62) gyda chroesgyfeiriadau at y Cynllun sydd newydd ei gyhoeddi;
- Mae'r Cynlluniau diwygiedig bellach yn cynnwys adran gyflwyno newydd sy'n rhoi manylion ychwanegol am gymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig, sy'n rhagofyniad pwysig ar gyfer y llwybrau comisiynu a dethol. Rydym hefyd wedi nodi'r prosesau y byddwn yn eu dilyn yn fras, gan gynnwys hyblygrwydd a chydnabod y gall ymarferion comisiynu a dethol amrywio o ran eu maint a'u cwmpas.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Mae'r polisi diwygiedig a'r Cynlluniau cysylltiedig wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan ac wedi'u cynnwys yn ein Rhestr o Ddogfennau Rheoleiddio, a byddant yn dod i rym ar unwaith.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am yr uchod, neu os hoffech roi unrhyw adborth, cysylltwch ag Osian Llywelyn, Pennaeth Polisi Rheoleiddio ar policy@qualificationswales.org.

Yn gywir,

Jo Richards
Cyfarwyddwr Gweithredol, Rheoleiddio